

Ffurflen Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gwybodaeth am y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad sy'n cael ei asesu

Beth sy'n cael ei asesu?	<input type="checkbox"/>	Swyddogaeth
	<input type="checkbox"/>	Polisi
	<input checked="" type="checkbox"/>	Prosiect
	<input type="checkbox"/>	Penderfyniad
Teitl y swyddogaeth, polisi, prosiect neu benderfyniad	Cynllun Strategol 2023 - 2026	
Beth yw nod y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn?	<p>Roedd ein Cynllun Corfforaethol blaenorol yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2019 a 2022. Nod y prosiect hwn yw datblygu set newydd o nodau strategol i gyflawni ein huchelgais ar gyfer y swydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae pobl Cymru yn teimlo bod gwasanaethau cyhoeddus yn eu trin yn deg ac yn ymateb pan fydd pethau'n mynd o chwith. Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gwrando ar unigolion ac yn defnyddio eu cwynion i ddysgu a gwella. Mae pobl yn ymddiried yn llywodraeth leol Cymru i ddarparu'r safonau ymddygiad uchaf. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn parhau yn llais dylanwadol ac uchel ei barch wrth wella gwasanaethau cyhoeddus. <p>Mae'r Aseiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> YMGYNGHORIAD: gan ganolbwyntio ar y broses o ddatblygu'r Cynllun Strategol, i sicrhau ei fod yn ystyried anghenion mynediad priodol gwahanol grwpiau. 	

	<ul style="list-style-type: none"> • CYNNEWYS: gan ganolbwyntio ar gynnwys y Cynllun Strategol. <p>Mae'r Cynllun yn egluro sut y byddwn yn mesur a ydym wedi gwneud gwahaniaeth ai peidio. Fodd bynnag, bydd Dangosyddion Perfformiad Allweddol manwl a dangosyddion gwerthuso eraill yn cael eu datblygu fel rhan o'r Cynlluniau Busnes blynyddol.</p>	
Ar bwy mae'r swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn effeithio?	<p>Ein holl randdeiliaid allanol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Defnyddwyr gwasanaeth (posib) • Defnyddwyr gwasanaeth (cyfredol) • Cyrff perthnasol • Cynghorwyr, staff y cyngor • Cyrff cynghori ac eiriolaeth • MSau, Llywodraeth Cymru, Aelodau Seneddol • Rheoleiddwyr ac arolygiaethau • Chwaer sefydliadau • Ymchwilwyr • Y wasg <p>Ein staff</p>	
Gyda phwy y dylid ymgynghori ynghylch y swyddogaeth, y polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn?	<p>Ein rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys sefydliadau sy'n gweithio gyda grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ymysg ein hachwynwyr.</p> <p>Ein staff</p>	
Pwy sy'n cynnal yr asesiad effaith hwn?	Ania Rolewska – Pennaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	
	Dyddiad: 21/11/2022	Fersiwn: 3.0

Sgrinio cychwynnol

Cwestiwn	Y	N	Os yw'r ateb yn 'YDY', eglurwch pam yn gryno
A yw'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'n swyddogaethau neu feysydd gwaith o fewn y swyddogaethau hynny y mae'r AEG wedi nodi effeithiau ar gydraddoldeb ar eu cyfer?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Bydd y prosiect hwn yn siapio sut rydym yn gwneud ein gwaith dros y 3 blynedd nesaf. Mae'n debygol o gael effeithiau eang ar amrywiaeth o grwpiau sy'n defnyddio ein gwasanaeth yn ogystal â defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru neu sy'n ymwneud â rhedeg llywodraeth leol yng Nghymru.</p> <p>Mae sawl agwedd ar y Cynllun sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag effeithiau ar gydraddoldeb:</p>

			<ul style="list-style-type: none"> • Ymrwymiad i godi ymwybyddiaeth o'r swyddfa ymhlith grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n deg ymhlith achwynwyr • Ymrwymiad i wella hygyrchedd ein gwasanaeth • Ymrwymiad i wella amrywiaeth ein gweithlu • Rhoi sylw i sut y byddwn yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws ein swyddogaethau • Rhoi sylw i sut y byddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ar draws ein swyddogaethau.
A yw'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'n Hamcanion Cydraddoldeb?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae'r prosiect yn berthnasol i'n holl Amcanion Cydraddoldeb, er (yn y man) bydd Cynllun Cydraddoldeb newydd yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r Cynllun Strategol hwn.
A oes risg y gallai'r polisi, y prosiect neu'r penderfyniad hwn roi unrhyw grŵp o bobl dan anfantais?	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Yn yr un modd ag unrhyw brosiect cyfathrebu, mae risg na fydd pob grŵp yn cael mynediad cyfartal at y broses ymgynghori. Gallai'r grwpiau a allai wynebu anfantais gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • pobl hŷn • pobl anabl • pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg rhugl • Siaradwyr Cymraeg

Os ydych chi wedi ateb 'ydy/oes' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, ewch ymlaen i'r asesiad effaith llawn.

Asesiad o'r Effaith: ymgynghoriad

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol			Negyddol	Niwtral	Cadarnhaol
Ystyriaethau trawsbynciol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Mae gan y Cynllun botensial sylweddol i ganolbwyntio ac ehangu ein gwaith gyda'r nod o wella amrywiaeth y cymunedau sy'n cwyno wrthym ni.</p> <p>Roedd fersiwn cyntaf y Cynllun yn nodi Nod Strategol ar wahân a oedd wedi ymrwymo i wella ein hygyrchedd a'n cynhwysiant. Roedd y camau gweithredu o dan y nod hwnnw'n cynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> Trawsnewid ein perthynas â chyrrff cynghori ac eiriolaeth, gan gefnogi defnyddwyr ein gwasanaeth drwy raglen allgymorth ac ymgysylltu. Lansio ymgyrch gyfathrebu ac allgymorth uchelgeisiol, wedi'i chefnogi gan adnoddau gwybodaeth gweledol a mwy hygyrch, i gyrraedd y cymunedau hynny sydd lleiaf tebygol o gwyno wrthym. 	<p>Croesawodd yr ymgynghoreion yr ymrwymiad hwn fel cam cadarnhaol yn y Cynllun. Gofynnwyd am fwy o eglurder ynghylch y grwpiau y byddem yn eu targedu a'r sefydliadau y byddem yn ymgysylltu â nhw. Mae'r eglurder hwn yn bwysig, ond byddai'n anodd adlewyrchu manylder o'r fath yn y ddogfen lefel uchel megis y Cynllun Strategol.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw manwl yn ein Strategaeth Gyfathrebu a'n Cynllun Cydraddoldeb newydd.</p> <p>Ar ben hynny, penderfynwyd ail-eirio'r ail gam gweithredu i adlewyrchu'r ffaith nad yw adnoddau a neilltuwyd i ni gan y Senedd ar gyfer 2023/24 yn ddigon i gynnal ymgyrch allgymorth helaeth iawn. Y geiriad diwygiedig yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu ymgyrchoedd allgymorth, wedi'u cefnogi gan adnoddau gwybodaeth gweledol a mwy hygyrch, i gyrraedd y cymunedau hynny sydd lleiaf tebygol o gwyno wrthym. 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negydd	Niwtral	Cadarnh			Negyddol	Niwtral	Cadarnhao
				Mae'r Cynllun Strategol yn ddogfen lefel uchel. Mae camau gweithredu dan y Cynllun i wella ein gwaith maes yn debygol o fod o fudd i wahanol grwpiau gwarchoddedig, ac nid yw'r Cynllun yn rhestru cymunedau penodol. Fodd bynnag, gweler rhai effeithiau disgwylidig isod, yn seiliedig ar ein gwaith monitro cydraddoldeb presennol, data ymwybyddiaeth ac adborth arall a fydd yn sail i bennu blaenoriaethau manylach o dan y Cynllun.				
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Mae gan y Cynllun botensial sylweddol i'n helpu i wella hygyrchedd ein gwasanaeth.</p> <p>Roedd fersiwn cyntaf y Cynllun yn nodi Nod Strategol ar wahân a oedd wedi ymrwmo i wella ein hygyrchedd a'n cynhwysiant. Roedd y camau gweithredu o dan y nod hwnnw'n cynnwys</p>	<p>Croesawodd yr ymgynghoreion yr ymrwymiad hwn fel cam cadarnhaol yn y Cynllun.</p> <p>Cawsom sylwadau manwl iawn ar ein hymrwymiad i wella hygyrchedd (gweler cofnodi unrhyw ymgynghori ac ymgysylltu a wneir isod)</p> <p>I adlewyrchu'r sylwadau hyn, mae geiriad y cam gweithredu perthnasol wedi'i ddiwygio fel a ganlyn:</p>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negydd	Niwtral	Cadarnh		Os felly, sut?	Negyddol	Niwtral	Cadarnhao
				<ul style="list-style-type: none"> Datblygu gwefan newydd a mwy hygyrch, wedi'i strwythuro o amgylch anghenion defnyddwyr ein gwasanaeth Gwella ansawdd ein dulliau cyfathrebu, gan gynnwys drwy wreiddio'r defnydd o Gymraeg Clir / Plain English ar draws y sefydliad. <p>Mae'r Cynllun Strategol yn ddogfen lefel uchel. Mae camau gweithredu dan y Cynllun i wella ein hygyrchedd yn debygol o fod o fudd i wahanol grwpiau gwarchoddedig, ac nid yw'r Cynllun yn rhestru cymunedau penodol. Fodd bynnag, gweler rhai effeithiau disgwylidig isod, yn seiliedig ar ein gwaith monitro cydraddoldeb presennol, data ymwybyddiaeth ac adborth arall a fydd yn sail i bennu blaenoriaethau manylach o dan y Cynllun.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gwella ansawdd a hygyrchedd ein dulliau cyfathrebu, gan gynnwys drwy ehangu'r defnydd o fformatau hygyrch a gwreiddio egwyddorion Cymraeg Clir / Plain English ar draws y sefydliad. <p>Ar ben hynny, penderfynwyd ail-eirio'r cam gweithredu i adlewyrchu'r ffaith nad yw adnoddau a neilltuwyd i ni gan y Senedd ar gyfer 2023/24 yn ddigon i ddatblygu gwefan newydd sbon. Y geiriad diwygiedig yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu gwefan mwy hygyrch, wedi'i strwythuro o amgylch anghenion defnyddwyr ein gwasanaeth. 			
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mae gan y Cynllun botensial sylweddol i'n helpu i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu.	Nid oedd unrhyw awgrymiadau i gryfhau'r ymrwymiad hwn ymhellach.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu			
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhau			Negyddol	Niwtral	Cadarnhau	
				<p>Un o'r mesurau llwyddiant arfaethedig dan Nod Strategol 4 yw</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae proffil ein gweithlu yn fwy amrywiol, gan adlewyrchu'n well y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. 					
	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae'r Cynllun yn cynnig potensial i bwysleisio'n glir ein hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Ni chafodd y pwyslais hwn ei gynnwys yn y Cynllun pan gafodd ei ddrafftio gyntaf.</p>	<p>Awgrymodd nifer o ymatebwyr allanol a mewnol ein bod yn cryfhau'r sylw i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Cynllun. Ar sail yr adborth hwnnw, yn yr adran 'Ein Nodau Strategol' ychwanegwyd y llinell ganlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ar draws ein Nodau Strategol, byddwn yn gweithio i hyrwyddo gwasanaethau ac ystyriaethau hawliau dynol cyfartal a theg. 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
Oedran	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>YMGYNGHORIAD</p> <p>I liniaru'r rhwystrau posib i fynediad i bobl hŷn, rydyn ni</p> <ul style="list-style-type: none"> wedi rhoi'r opsiwn i bobl sydd â diddordeb rannu sylwadau heblaw yn ysgrifenedig (mewn cyfarfod ar-lein neu dros y ffôn) 			<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negydd	Niwtral	Cadarnh			Negyddol	Niwtral	Cadarnhao
				<ul style="list-style-type: none"> rhannu manylion yr ymgynghoriad â sefydliadau sy'n gweithio gyda'r gymuned hon (e.e. Age Cymru) 				
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>CYNNWYS</p> <p>Disgwylir y bydd y camau gweithredu i wella ein hygyrchedd o fudd arbennig i bobl hŷn. Disgwylir i gamau gweithredu er mwyn gwella ymwybyddiaeth fod o fudd arbennig i bobl iau.</p>		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Anabledd	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>YMGYNGHORIAD</p> <p>I liniaru'r rhwystrau posib i fynediad ar gyfer y grŵp hwn, rydyn ni</p> <ul style="list-style-type: none"> wedi cyhoeddi'r ymgynghoriad mewn fformat EasyRead wedi rhoi'r opsiwn i bobl sydd â diddordeb rannu sylwadau heblaw yn ysgrifenedig (mewn cyfarfod ar-lein neu dros y ffôn) rhannu manylion yr ymgynghoriad â mudiadau sy'n gweithio gyda'r gymuned hon (e.e. Anabledd Cymru, Anabledd Dysgu Cymru, Mencap ac eraill) 		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negydd	Niwtral	Cadarnh			Negyddol	Niwtral	Cadarnhao
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	CYNNWYS Disgwylir y bydd y camau gweithredu i wella ein hygyrchedd ac amrywiaeth ein gweithlu o fudd arbennig i bobl anabl.		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Rhywedd (rhyw)	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	YMGYNGHORIAD Ni ddaethom o hyd i unrhyw rwystrau i bobl ar sail eu rhyw.		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	CYNNWYS Mae menywod yn cael eu cynrychioli'n dda ymysg ein hachwynwyr a'n staff. Nid ydym yn rhagweld effaith benodol ar y grŵp hwn.	Bydd camau gweithredu mwy manwl mewn perthynas â'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ailbennu rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	YMGYNGHORIAD I liniaru'r rhwystrau posib i fynediad ar gyfer y grŵp hwn, rydyn ni <ul style="list-style-type: none"> wedi rhannu manylion yr ymgynghoriad â sefydliadau sy'n gweithio gyda'r gymuned hon (e.e. Stonewall) 		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	CYNNWYS Ar hyn o bryd, mae pobl sy'n ystyried eu hunain yn drawsrywiol yn cael eu cynrychioli'n gymharol dda ymysg ein hachwynwyr, ond nid	Rydyn ni'n gwybod y gallai pobl sy'n ystyried eu hunain yn drawsryweddol fod ag angen penodol am ein gwasanaethau. Byddwn yn gwerthuso sut y dylem gefnogi'r grŵp hwn o dan ein Strategaeth Gyfathrebu a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negydd	Niwtral	Cadarnh			Negyddol	Niwtral	Cadarnhao
				ydynt yn cael eu cynrychioli o gwbl ymysg ein staff.				
Priodas a phartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	YMGYNGHORIAD Ni ddaethom o hyd i unrhyw rwystrau i bobl oherwydd eu statws priodasol		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	CYNNWYS Nid ydym wedi nodi unrhyw effaith benodol ar y grŵp hwn.		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Beichiogrwydd a mamolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	YMGYNGHORIAD Ni ddaethom o hyd i unrhyw rwystrau i bobl yn y grŵp hwn.		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	CYNNWYS Nid ydym wedi nodi unrhyw effaith benodol ar bobl yn y grŵp hwn.		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Hil	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	YMGYNGHORIAD I liniaru'r rhwystrau posib i fynediad ar gyfer y grŵp hwn, rydyn ni <ul style="list-style-type: none"> wedi rhannu manylion yr ymgynghoriad â sefydliadau sy'n gweithio gyda'r gymuned hon (e.e. EYST; Race Equality First) 		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	CYNNWYS		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negydd	Niwtral	Cadarnh			Negyddol	Niwtral	Cadarnhao
				Disgwylir y bydd y camau gweithredu i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'n swyddfa, yn ogystal â gwella amrywiaeth ein gweithlu, o fudd arbennig i bobl o gefndiroedd a chenhedloedd ethnig amrywiol.				
Crefydd neu gred	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>YMGYNGHORIAD</p> <p>I liniaru'r rhwystrau posib i fynediad ar gyfer y grŵp hwn, rydyn ni</p> <ul style="list-style-type: none"> wedi rhannu manylion yr ymgynghoriad â sefydliadau sy'n gweithio gyda'r gymuned hon (e.e. Cytun) 		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>CYNNWYS</p> <p>Ar hyn o bryd, mae pobl sy'n ystyried bod ganddynt grefyddau amrywiol yn cael eu cynrychioli'n gymharol dda ymysg ein hachwynwyr. Nid ydym yn rhagweld effaith benodol ar y grŵp hwn ar hyn o bryd.</p>		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyfeiriadedd rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>YMGYNGHORIAD</p> <p>I liniaru'r rhwystrau posib i fynediad ar gyfer y grŵp hwn, rydyn ni</p>		<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negyddol	Niwtral	Cadarnhau			Negyddol	Niwtral	Cadarnhao
				<ul style="list-style-type: none"> wedi rhannu manylion yr ymgynghoriad â sefydliadau sy'n gweithio gyda'r gymuned hon (e.e. Stonewall) 				
	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>CYNNWYS</p> <p>Mae pobl sy'n ystyried bod ganddynt gyfeiriadedd rhywiol amrywiol yn cael eu cynrychioli'n gymharol dda ymysg ein hachwynwyr. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y camau gweithredu i wella amrywiaeth ein gweithlu o fudd arbennig i bobl yn y grŵp hwn.</p>		<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Y Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>YMGYNGHORIAD</p> <p>Roedd risg na fydd yr ymgynghoriad yn hygyrch i siaradwyr Cymraeg ac na fydd yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.</p> <p>I liniaru'r risg honno, lansiodd yr ymgynghoriad yn ddwyieithog, gyda phob sianel i gyflwyno'r ymatebion (gan gynnwys cyfarfodydd ar-lein) sydd ar gael yn Gymraeg. Roedd cwestiynau'r</p>	Holodd un ymgynghorai a oeddem yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg drwy gyhoeddi'r ymgynghoriad yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahân. Fe wnaethom ystyried ein dull gweithredu a chawsom ein sicrhau ei fod yn cydymffurfio.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negydd	Niwtral	Cadarnh			Negyddol	Niwtral	Cadarnhao
				ymgyngoriad yn cynnwys cwestiynau am yr effaith bosib ar y Gymraeg.				
	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>CYNNWYS</p> <p>Nid oedd drafft cyntaf y Cynllun (fel yr ymgynghorwyd arno) yn cyfeirio at y Gymraeg, er bod cwestiynau am yr effaith bosib wedi eu gofyn yn ystod yr ymgynghoriad.</p>	<p>Cawsom sylwadau manwl gan yr ymgynghoreion ar effaith y Cynllun ar y Gymraeg (gweler cofnodi unrhyw ymgynghori ac ymgysylltu a wneir isod).</p> <p>Penderfynwyd na fyddai'n ymarferol cyfeirio at y Gymraeg ar gyfer pob Nod Strategol. Yn hytrach, i adlewyrchu natur drawsbynciol yr ystyriaethau hyn, penderfynwyd mewnosod paragraff newydd yn yr adran Nodau Strategol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn parhau i gydymffurfio â'n safonau iaith Gymraeg ac yn edrych ar ffyrdd o hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr holl Nodau Strategol. <p>Caiff yr ymrwymiad hwn ei atgyfnerthu gan y camau gweithredu canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ystyried sylwadau'r ymgynghoriad fel rhan o'r adolygiad o'n Polisi Iaith Gymraeg (lonawr 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Nodwedd	Effaith bosibl			Esboniwch yr effaith hon	A oes modd lliniaru neu wella'r effaith hon? Os felly, sut?	Effaith ar ôl camau gweithredu		
	Negydd	Niwtral	Cadarnh			Negyddol	Niwtral	Cadarnhao
					2023) a datblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd (Ionawr-Mawrth 2023)			
<p>Nodweddion economaidd-gymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> natur wledig incwm isel/dim incwm dyletswyddau gofalu 	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nid yw'r Cynllun fel yr ymgynghorwyd arno yn cyfeirio at ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.	Awgrymodd un ymgynghorai y dylid cyfeirio at y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn y Cynllun. Ni wnaethom gynnwys y cyfeiriad hwnnw, gan fod ein dealltwriaeth o gydraddoldeb eisoes yn cynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Cofnodwch y dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych i asesu effaith:

RHAN 1

Roedd yr asesiad yn cynnwys ystyriaethau tebyg i unrhyw brosiect cyfathrebu, gan roi sylw penodol i anghenion mynediad pobl mewn gwahanol grwpiau oedran; pobl anabl; pobl a allai fod yn dlawd o ran amser (e.e. gofalwyr) a siaradwyr Cymraeg.

RHAN 2

Roedd datblygu drafft cychwynnol y Cynllun Strategol yn seiliedig ar ymchwil helaeth a gynhaliwyd gennym i ddeall tueddiadau yn ein gwaith achos a safbwyntiau ein rhanddeiliaid. Roedd hyn yn cynnwys:

- Adborth defnyddwyr gwasanaeth (gan gynnwys drwy'r arolwg ffôn blynyddol) (sy'n cynnwys cwestiynau am ein hygyrchedd)
- Canlyniadau arolwg ymwybyddiaeth y cyhoedd cenedlaethol (sy'n dadansoddi'r canlyniadau yn ôl ethnigrwydd, oedran, anabledd, lleoliad daearyddol a'r gallu i siarad Cymraeg)
- Adborth gan y cyrff yn ein hawdurdodaeth (drwy ein Seinfwrdd blynyddol ac arolwg ar-lein)
- Ein harolwg staff mewnol
- Grwpiau ffocws Dysgu a Datblygu Chwarae Teg
- Asesiad Cyflogwr Chwarae Teg
- Data cydraddoldeb ein staff a'n hachwynwyr

Roedd yr ymgynghoriad a'r ymgysylltu isod hefyd yn sail i'r asesiad.

Cofnodwch unrhyw ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd

Chwaer sefydliadau

Yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2022, buom yn cysylltu â chydweithwyr yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon ac Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd i ddysgu am eu dull o ddatblygu eu Cynlluniau Strategol. Roedd dau o'r cynlluniau hyn yn amlygu cynhwysiant, ymwybyddiaeth a hygyrchedd fel nodau strategol ar wahân.

Staff:

3 sesiwn ymgysylltu cyn ymgynghori (Mehefin a Gorffennaf 2022)

3 sesiwn ymgysylltu yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus (Hydref – Tachwedd 2022)

- Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys awgrym y dylid pwysleisio gwaith hawliau dynol yn y Cynllun terfynol

Rhanddeiliaid allanol:

Ymgynghoriad cyhoeddus (Medi – Tachwedd 2022)

Galwodd nifer o ymatebwyr am

- fwy o eglurder ynghylch ffocws a chwmpas ein gwaith allgymorth arfaethedig yn ogystal â chymorth hygyrchedd, gan gynnwys:
 - sut y byddwn yn ymgysylltu â'r 'lleiafrif tawel' ymysg defnyddwyr posib ein gwasanaeth
 - sut y byddwn yn cyrraedd ac yn cefnogi'r rheini nad Saesneg na Chymraeg yw eu hiaith gyntaf
 - sut y byddwn yn cefnogi'r rheini sydd ag anawsterau dysgu
 - diffyg ffocws ar amddifadedd economaidd-gymdeithasol
 - yr angen i ystyried gwaith wedi'i dargedu gyda grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a defnyddio porthorion allweddol yn y gymuned i ledaenu ein neges
 - nid yw ein hymrwymadau'n mynd yn ddigon pell, gyda'r angen am lawer mwy o bwylais ar hygyrchedd, y tu hwnt i Saesneg Syml – er enghraifft, ieithoedd ar wahân i Gymraeg, BSL, fersiynau sain, gwasanaethau Braille, hawdd eu darllen, cynrychiolwyr o bob cefndir sy'n gallu gweithredu fel eiriolwyr ar ran y rheini sydd ei angen)
 - beth a wnawn i sicrhau mynediad dwyieithog
 - pwylais ar yr angen am farchnata clir ac effeithiol
- yr angen i gryfhau'r sylw ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gydag awgrymiadau y gallai
 - ein ffocws ar wasanaeth da i gwsmeriaid, yn ogystal â'n gwaith gwella rhagweithiol gynnwys mwy o bwylais ar hyrwyddo gwasanaethau ecwiti/ecwitiol;
 - 'mae hanfodion Deddf Cydraddoldeb 2010' wedi'u hintegreiddio o fewn cwmpas y Nodau Strategol
 - mae mwy o ffocws ar amrywiaeth y staff

Roedd un ymatebydd yn cydnabod ein gwaith ar hawliau dynol ac yn dweud 'y byddem yn hoffi gweld rheoleiddwyr eraill yn ymgymryd â rôl fwy penodol wrth arolygu ar gyfer cynnydd o ran cyflawni amcanion a

chanlyniadau cydraddoldeb yn eu sectorau ac ystyried achosion posib o dorri materion cydraddoldeb a hawliau dynol.’

Yng nghyswllt y Gymraeg, roedd meysydd sy'n peri pryder, beirniadaeth neu lle'r oedd galwadau am fwy o eglurder fel a ganlyn:

- Diffyg eglurder a fyddai gwaith allgymorth a gwella systemig yn ystyried anghenion siaradwyr Cymraeg hefyd
- Diffyg eglurder ynghylch sut y byddwn yn sicrhau mynediad dwyieithog, yn cynrychioli diwylliant Cymru ac amrywiaeth ei dinasyddion a sut y byddwn yn cysylltu ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Awgrymodd un ymatebydd
 - yn gyffredinol, byddai'n fuddiol pe byddem yn ystyried perthnasedd safonau'r Gymraeg gyda phob un o'r camau gweithredu arfaethedig o dan bob Nod Strategol a'r dulliau o fesur llwyddiant. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i elfennau sy'n ymwneud â thechnoleg gwybodaeth, darparu gwasanaeth a chyfathrebu, a datblygu staff.
 - fel rhan o nod strategol 2 dylem gynnal gwaith dadansoddi i ganfod pam fod cyn lleied o bobl yn dymuno defnyddio eich gwasanaethau yn Gymraeg a chymryd camau i gynyddu'r defnydd o'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.
 - dylai nod strategol 2 ymdrin â'r angen i gydymffurfio â safon 77 safonau'r Gymraeg.
 - y dylem ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ymysg y gweithlu.
 - roedd yr ymatebwyr yn awyddus i danlinellu'r gofyniad penodol i gyrrff cyhoeddus o dan safonau'r Gymraeg gyhoeddi gweithdrefn gwyno sy'n manylu ar sut y maent yn bwriadu delio â chwynion ynghylch eu cydymffurfedd â'r safonau y maent o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw, a hefyd darparu hyfforddiant i'w staff i ddelio â'r cwynion hynny.
- Dywedodd un ymatebydd fod angen i ni ystyried sut y bydd y Nodau Strategol yn dangos sut y byddwn yn cefnogi siaradwyr Cymraeg i weithio mewn ffordd ystwyth (e.e. argaeledd meddalwedd cyfieithu) a hefyd sut y byddwn yn cefnogi pobl anabl a defnyddwyr ieithoedd eraill i'r perwyl hwnnw.
- Holodd un ymatebydd a oedd yr ymgynghoriad yn trin y Gymraeg o leiaf yr un mor ffafriol â'r Saesneg, gan nodi 'byddai wedi bod yn fwy addas cynnal yr ymgynghoriad yn gwbl ddwyieithog yn hytrach na dweud bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg'. Dywedodd y dylai'r Cynllun roi mwy o sylw i'r Gymraeg ac effeithiau'r Nodau ar y Gymraeg. Dywedodd hefyd y dylai'r Cynllun hefyd ystyried cymwyseddu OGCC yng nghyswllt cwynion am y defnydd o'r Gymraeg.

- Dywedodd un ymatebydd y dylem sicrhau bod y ddwy iaith yn cael statws cyfartal – ‘cyn belled nad oes pwysau i ‘wthio’ defnydd o’r Gymraeg, gan ganiatáu dewis personol yn hytrach’.
- Pwysleisiodd un ymatebydd yr angen i roi amlygrwydd i iaith Arwyddion Prydain hefyd

Adroddiad canlyniadau

Cam Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol wedi’i gwblhau	<input checked="" type="checkbox"/>	Sgrinio cychwynnol
	<input checked="" type="checkbox"/>	Asesiad llawn
Crynodeb o’r effeithiau negyddol a nodwyd	Ni chanfu’r asesiad unrhyw effeithiau negyddol.	
Penderfyniad	<input checked="" type="checkbox"/>	Bwrw ymlaen – dim newidiadau
	<input type="checkbox"/>	Bwrw ymlaen – angen gweithredu
	<input type="checkbox"/>	Peidio â bwrw ymlaen
Cynllun Gweithredu	Mae’r camau gweithredu a nodwyd yn ymwneud â pholisiau a strategaethau eraill a fydd yn cael eu hadolygu neu eu datblygu maes o law: <ul style="list-style-type: none"> • Polisi Iaith Gymraeg • Cynllun Cydraddoldeb Strategol • Strategaeth Gyfathrebu 	
	Awdurdodwyd gan Tîm Rheoli	Dyddiad Ionawr 2023